

Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant Sir y Fflint 2017 – 2022

Adroddiad Diweddarau a Chynnydd Mehefin 2021

Rhagarweiniad

Yn dilyn ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru yn 2015 a'r Canllawiau Gofal Plant Statudol diwygiedig a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2016, mae'n ofynnol i Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant gael eu cynnal bob 5 mlynedd. Cyhoeddir adroddiadau blynyddol yn nodi'r cynnydd a wnaed yn erbyn y camau gweithredu, blaenoriaethau a'r cerrig milltir a nodwyd yn y cynllun gweithredu. Dyma'r adroddiad diweddar a chynnydd ar gyfer y flwyddyn o Ebrill 2020 i Mawrth 2021.

Mae'r Awdurdod Lleol wedi cysylltu ag Arolygiaeth Gofal Cymru, Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir y Fflint ac ystod o sefydliadau ymbarél a budd-ddeiliaid allweddol eraill, i sicrhau darlun cywir a chyfredol o'r cyflenwad a'r galw am ofal plant, a fydd yn galluogi i'r cynllun gweithredu gael ei adolygu a'i ddiweddarau.

Dyma'r pedwerydd adroddiad ers cyhoeddi'r asesiad llawn a'r cynllun gweithredu yn 2017.


Mae Covid-19 wedi cael effaith sylweddol ar wasanaethau yn gyffredinol, gyda busnesau dianghenraid yn cau a phobl yn gweithio o adref. Mae hyn yn debygol o gael effaith ar y farchnad gofal plant yn y dyfodol agos. Mae nifer o ddarparwyr gofal plant wedi cau yn ystod y cyfnodau clo, ac er fod rhai wedi parhau ar agor i ddarparu gofal i blant gweithwyr allweddol, bydd y gostyngiad mewn niferoedd yn dal i gael effaith ar incwm a chostau ar gyfer darparu'r gwasanaethau hynny.

Mae'r Tîm Datblygu Gofal Plant yn gweithio'n agos ac ar y cyd â phartneriaid CWLWM i ddarparu'r gwasanaeth gorau bosibl i gefnogi darparwyr gofal plant yn Sir y Fflint. Maent yn comisiynu ac yn prynu gwasanaethau a chymorth ar y pryd gan bartneriaid CWLWM i ddarparu cymorth, hyfforddiant a gwasanaethau arbenigol i ddarparwyr gofal plant.

Cyflenwad Gofal Plant Cyfredol

Mae lefel presennol y cyflenwad gofal plant yn Sir y Fflint wedi ei arddangos yn y tabl isod yn seiliedig ar Adroddiad Wythnosol FIS Arolygaeth Gofal Cymru, 29 Mawrth 2021 ac Adroddiad Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol (VAS), 1 Chwefror 2021.

Math o Ofal plant	Wedi cofrestru	Gwahardd wyd	Heb eu Cofrestru na'u Cymeradwyo
Gwarchodwyr Plant	107	5	
Gofal Dydd Llawn	55		
Gofal Dydd Sesiynol	22		
Meithrinfeydd	3		
Gofal y Tu Allan i'r Ysgol	40		9
Nani			4
Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored			55
Cyfanswm	227	5	68



Er gwaethaf Covid-19 mae cyflenwad gofal plant wedi parhau yn sefydlog dros y 12 mis diwethaf.

Cofrestriadau a Gohiriadau Arolygiaeth Gofal Cymru

Math o Ddarparwyr Gofal Plant	Nifer y Darparwyr Gofal Plant a ohiriwyd ac ail-gofrestrwyd fel Sefydliad Corfforedig Elusennol	Nifer y Darparwyr Gofal Plant newydd sydd wedi cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru	Nifer y Darparwyr Gofal Plant a ohiriodd eu cofrestriad Arolygiaeth Gofal Cymru
Gofal Dydd Llawn	8	2	
Gofal Sesiynol	1		
Gwarchodwyr Plant		4	5

Mae'r tabl uchod yn dangos y darparwyr sydd wedi cau neu ail-agor yn ddiweddar i ddod yn Sefydliad Corfforedig Elusennol, sydd wedi cynyddu'r nifer cofrestredig o lefydd gofal plant o 15.

Roedd rhaid i Glwb Gwyliau a Chylch Chwarae Cyn Ysgol Brychdyn, symud o dir yr ysgol ar ddechrau'r flwyddyn yn sgil cyfyngiadau Covid-19. Yn ystod yr haf roeddent wedi'u lleoli dros dro yng nghwt y Sgowtiaid ac ym Medi 2020 fe symudon nhw i'r Ganolfan Gymunedol. Yn dilyn trafodaethau gyda'r ysgol, fe wnaethant ddychwelyd i safle'r ysgol ym mis Ionawr 2021, mewn pryd ar gyfer y cohort Cyfle Cynnar. Yn anffodus, ers hynny maent wedi derbyn rhybudd gadael erbyn diwedd tymor yr haf, gan fod yr ysgol angen y gofod ar gyfer dibenion addysgol. Ar hyn o bryd mae pwyllgor Cylch Chwarae Cyn Ysgol Brychdyn yn adolygu eu dewisiadau ar gyfer Medi 2021.

Agorodd Gofal Plant Merllyn (Bagillt) yn Ysgol Merllyn Bagillt, gan ddarparu 19 o lefydd cofrestredig newydd.

Mae Cylch Chwarae Trelogan wedi cofrestru dros dro yn y ganolfan gymunedol leol wrth gynnal eu cofrestriad Arolygiaeth Gofal Cymru cyfredol yn yr ysgol.

Mae lleihad o 7 lle cofrestredig yn dilyn cofrestru 4 gwarchodwr plant a chau 5 yn 2020/21. Mae nifer o warchodwyr plant wedi cau yn sgil Covid-19 a materion eraill.

Cynllun Gweithredu a Chynnydd

Asesiad o Alw

Targed	Pam	Camau Gweithredu	Cynnydd
<ul style="list-style-type: none"> • Ar gyfer yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant nesaf, gwella hyrwyddo'r arolwg rhieni gan mai cyfran fach iawn o rieni Sir y Fflint wnaeth lenwi'r arolwg ar gyfer 2016. • Sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cael argymhellion ar gyfer gwelliannau i'r arolwg rhieni. 	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfradd ymateb isel ar gyfer yr arolwg • Newidiadau i'r arolwg i wella cyfraddau ymateb 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir y Fflint (FISF) yn hyrwyddol CWLWM trwy ddolenni i'w tudalennau gwe a Facebook • Rhwydwaith FISF wedi gofyn am system arolwg DEWIS 	<p><u>FISF</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r tîm yn rhannu dolenni o dudalen Facebook CWLWM yn rheolaidd • Gohirio datblygu model i 2021 gan fod Data Cymru yn ymateb i anghenion Covid-19. Mae cwestiynau arolwg drafft wedi cael eu cytuno cyn y datblygiad

Mae'r gwasanaethau yn cydweithio i rannu dolenni a fydd yn gwella hyrwyddiad yr arolwg nesaf ar lwyfannau gwahanol i sicrhau ei fod yn cyrraedd cymaint o rieni â phosibl i gwblhau'r arolwg. Bydd hyn, yn ogystal â'r adborth a ddarparwyd yn flaenorol i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â sut i wella'r arolwg, yn ceisio cynyddu'r nifer o arolygon a gwblheir yn yr Aseiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant llawn nesaf, dros y 12 mis nesaf gan ddarparu adborth ehangach gan rieni.

Asesiad o Gyflenwad

Targed	Pam	Camau Gweithredu	Cynnydd
<ul style="list-style-type: none"> Cefnogi cwblhad y Datganiad Hunanasesiad Gwasanaeth Rhan 1 Darparu cymorth technegol lle bynnag bosibl i gefnogi darparwyr wrth iddynt gwblhau SASS 1 a 2 Arolygiaeth Gofal Cymru Ar-lein. 	<p>Cael data mwy dilys, gan fod 22.9% o ddarparwyr gofal plant Sir y Fflint wedi methu a chwblhau arolwg AGC SASS Rhan 1 ar-lein.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Cefnogaeth a chynghor a ddarparwyd i ddarparwyr gofal plant o amgylch gofynion SASS1 a 2 Darparu cymorth technegol i helpu darparwyr gofal plant i gwrdd â gofynion gwefan SASS 1 a 2, y Cynnig Gofal Plant, Cyfle Cynnar a DEWIS. 	<p>Cynigir cymorth technegol i ddarparwyr a gofalwyr plant gan sefydliadau cymorth gwahanol i ddefnyddio gwasanaethau ar-lein, gan gynnwys cwblhau'r SASS</p> <p><u>Mudiad Meithrin</u> - Yn ystod Covid-19 mae cynnydd mewn defnydd o lwyfannau ar-lein a digidol wedi arwain at Gylchoedd yn dod yn fwy hyderus wrth ddefnyddio TG a fydd yn helpu i gwblhau'r SASS nesaf.</p> <p><u>Tîm Datblygu Gofal Plant</u> Mae gliniaduron ar gael i'w benthwyg i ddarparwyr er mwyn eu cynorthwyo i gwblhau eu gwaith papur adolygu SASS ac Ansawdd Gofal, hawliadau'r Cynnig Gofal Plant a Chyfle Cynnar a chofrestru ar wefan DEWIS.</p>

			<p>Mae meini prawf ymgeisio Grant Cyfalaf Bychan Cynnig Gofal Plant yn galluogi lleoliadau i wneud cais am offer TG</p> <p>Roedd <u>PACEY Cymru</u> yn cynnig gweminarau Datblygiad Proffesiynol Parhaus am ddim ar gyfer gofalwyr plant cofrestredig ac aelodau PACEY rhwng Ionawr a Mawrth 2021 a oedd yn cynnwys gweminar ar ‘Gwblhau eich Adolygiad Ansawdd Gofal blynyddol’ ar 27 Ionawr 2021. Yn sgil glaw poblogaidd, cynigiwyd dyddiad ychwanegol ar 18 Chwefror 2021.</p> <p>Cynghorwyd darparwyr <u>Cyfle Cynnar</u> ar y ffyrdd y gallai eu hadroddiad Ansawdd Gofal fwydo i mewn/bod yn rhan o’u hadroddiad hunanwerthuso blynyddol sydd rhaid iddynt gynhyrchu fel darparwr Cyfle Cynnar cofrestredig – roedd hyn er mwyn helpu darparwyr i osgoi dyblygu gwaith papur yn ddiangen. Cynigiwyd hyfforddiant i holl ddarparwyr Cyfle Cynnar ar sut i werthuso eu darpariaeth yn effeithiol.</p> <p>Bydd <u>Y Blynyddoedd Cynnar Cymru</u> yn darparu cymorth unwaith i ddyddiad yr SASS fod ar gael, yn hwyr yn nhymor yr haf mae’n debyg.</p>
<p>Ymddangosir bod digon o gefnogaeth ar gyfer holl ddarparwyr gofal plant o’r sefydliadau ymbarél gwahanol maent yn gysylltiedig â nhw. Mae’r newidiadau sydd wedi gorfod digwydd o wyneb yn wyneb i fod ar-lein, wedi gwella sgiliau’r rhai ynghlwm gyda Chylchoedd a rhai eraill hefyd. Gall rai darparwyr gael anawsterau o ran adrodd ar-lein yn sgil materion hygyrchedd digidol a all effeithio ar eu gallu i adrodd.</p>			

Dadansoddiad o gyflenwad a galw darpariaeth gofal plant cyffredinol

Targed	Pam	Camau Gweithredu	Cynnydd
<ul style="list-style-type: none"> • Recriwtio mwy o warchodwyr plant, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. 	<ul style="list-style-type: none"> • Nifer cyfyngedig o warchodwyd plant mewn lleoliadau gwledig 	<ul style="list-style-type: none"> • Cynyddu gwaith hyrwyddo o amgylch gofalu am blant – Tîm Datblygu Gofal Plant a PACEY 	<p>Yn sgil cyfyngiadau Covid-19, mae'r gallu i fynychu digwyddiadau hyrwyddo wedi bod yn brin. Fodd bynnag, mae PACEY wedi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ymgysylltu gyda'r Ganolfan Waith i godi ymwybyddiaeth o ofalu am blant fel gyrfa • Cymryd rhan yn ffair swyddi ar-lein Gogledd Cymru • Cyhoeddi Blog Siwrnai i gofrestru fel gwarchodwr plant yng Nghymru • Fideo o'r hyn a ddywedodd gofaluwr plant pan ofynnwyd iddynt 'beth yw'r peth gorau am fod yn ofalwr plant?' Yn ystod hyfforddiant cyn cofrestru • Rhannu dolenni i wybodaeth i hyrwyddo gofal plant fel gyrfa
<ul style="list-style-type: none"> • Cefnogi cofrestru cynlluniau chwarae mynediad agored. 	<ul style="list-style-type: none"> • Dim ond un cynllun chwarae mynediad agored sydd wedi ei gofrestru gyda AGC. 	<ul style="list-style-type: none"> • Adroddiad y Swyddog Datblygu Chwarae ar niferoedd lleoliadau 	<p>Mynychodd 1,865 o blant a phobl ifanc gynlluniau chwarae'r haf yn ystod 2020 mewn 55 o leoliadau yn ystod gwyliau'r haf. Roedd 30 o'r plant a phobl ifanc hyn yn cael eu cefnogi gan Gynllun Cyfeillio Sir y Fflint. Roedd y Cynllun Cyfeillio yn cefnogi plant a phobl ifanc gydag anableddau i fynychu eu cynlluniau chwarae lleol. Roedd 80 o blant wedi cofrestru gyda chynlluniau chwarae Cymraeg yr ALI a ddarparwyd mewn partneriaeth ag Urdd Gobaith Cymru.</p> <p>Roedd Newydd yn darparu pecynnau bwyd dyddiol mewn 18 o leoliadau. Roedd hyn dan ddisgresiwn ac yn cael ei gyllido gan gynghorau cymuned a thref, gan dderbyn llawer o werthfawrogiad gan y rhai a dderbyniodd y rhain.</p>

Targed	Pam	Camau Gweithredu	Cynnydd
			<p>Mae Sir y Fflint yn y broses o gadarnhau lleoliadau ar gyfer cynllun Chwarae'r haf 2021. Rhagwelir y bydd yr un nifer o safleoedd ag yr oedd yn 2019 sef cyfanswm o 57 o gynlluniau chwarae. Ni fydd unrhyw gynlluniau wedi'u cofrestru gyda AGC.</p> <p>Darperir yr holl gynlluniau chwarae i'r safonau gofynnol cenedlaethol.</p>
<ul style="list-style-type: none"> Codi ymwybyddiaeth, ymysg asiantaethau a darparwyr hyfforddiant, bod cyfleusterau crèche ar gael yn Sir y Fflint. 	<ul style="list-style-type: none"> Dim digon o ddefnydd o gyfleusterau crèche cofrestredig 	<ul style="list-style-type: none"> Hyrwyddo cyfleusterau Crèche 	<p>Nid oedd Gwasanaethau Crèche Sir y Fflint yn gallu darparu unrhyw ddarpariaeth Crèche o Ebrill 1 2020 - Mawrth 31 2021, yn sgil effaith uniongyrchol Covid-19 a oedd yn rhwystro darpariaeth wyneb yn wyneb o holl Raglen Rhianta a gynlluniwyd gan Ddechrau'n Deg a Grymuso Rhieni Grymuso Cymunedau (EPEC) yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.</p> <p>Yn absenoldeb unrhyw ddarpariaeth Crèche, cododd y cyfle i gynnal Gwerthusiad Dewisiadau ar gyfeiriad a datblygiad posibl yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth. Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda budd-ddeiliaid posibl o fewn y Blynnyddoedd Cynnal a Chymorth i Deuluoedd a defnyddwyr gwasanaeth posibl o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol Plant. Canfuwyd bylchau ac arweiniodd hyn at wella'r Achos Busnes ar gyfer ailddatblygu'r gwasanaeth fel Gwasanaeth Crèche a Gofal Plant Sir y Fflint.</p> <p>Gan ddiwallu'r galw ar gyfer gofal plant yn Garden City/Sealand, bydd lleoliad gofal plant Garden City yn agor yn ystod 2021. Bydd y lleoliad gofal plant hwn yn darparu llefydd gofal plant ar gyfer plant 2 oed Dechrau'n Deg a Chynnig Gofal Plant 3-4 oed yn yr ardal.</p>

Targed	Pam	Camau Gweithredu	Cynnydd
			<p>Mae Arweinydd llawn amser newydd Gwasanaeth Crèche a Gofal Plant Sir y Fflint a Goruchwyliwr a Chymhorthydd yn ystod y tymor yn unig wedi cael eu penodi, i gydlynu'r gwasanaeth a staffio'r ddarpariaeth Gofal Plant newydd yn Garden City. Hefyd, fe dderbyniodd y Ganolfan fuddsoddiad Cyfalaf Dechrau'n Deg gan Lywodraeth Cymru.</p> <p>Wrth i ni ddychwelyd i ddarparu gwasanaethau wyneb yn wyneb, gan gynnwys rhaglenni rhianta, rhagwelir angen cynyddol am y gwasanaeth a byddwn yn recriwtio mwy o Staff Wrth Gefn i gynyddu maint cronfa'r Crèche. Bydd Arweinydd newydd Gwasanaeth Crèche a Gofal Plant Sir y Fflint yn gweithredu cynllun ar gyfer hyrwyddo'r gwasanaeth wrth fynd ymlaen, wrth i wasanaeth arferol gael caniatâd i aildechrau.</p> <p>Yn ystod y cyfnod dros dro, mae Staff wrth gefn y Crèche wedi diwallu'r galw ar gyfer dosbarthu Dyfeisiau Prawf Llif Unffordd i ddarparwyr gofal plant dynodedig, megis gwarchodwyr plant domestig a lleoliadau heb eu cofrestru.</p>
<ul style="list-style-type: none"> • Cynnig mwy o wybodaeth mewn perthynas â nanis ar y cynllun cymeradwyae th gwirfoddol drwy FISF. 	<ul style="list-style-type: none"> • Nifer cyfyngedig o Nanis ar y Cynllun Cymeradwyaeth Gwirfoddol 	<ul style="list-style-type: none"> • FISF i hyrwyddo Nanis fel dewis gofal plant 	<p><u>FISF:</u> Yng nghyfarfod Datblygu Dewis 2019/20, cytunwyd y gallai Nanis gael eu hychwanegu at wefan www.fis.waleso dan 'Cymorth i Deuluoedd'. Er nad oes unrhyw Nanis wedi cofrestru yn Sir y Fflint o fewn y categori hwn eto, mae gwaith yn parhau i annog holl wasanaethau gofal plant i gofrestru ar Dewis i hyrwyddo eu busnes.</p> <p><u>PACEY:</u> Mae PACEY Cymru wedi codi ymwybyddiaeth o ymgynghoriad Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Cynllun</p>

Targed	Pam	Camau Gweithredu	Cynnydd
			Cymeradwyaeth Gwirfoddol ar gyfer Nanis ac wedi cyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad. Hefyd, fe gynhaliwyd dau weminar ymgynghori, gan gynnwys sesiwn nos ar gyfer nanis.
<ul style="list-style-type: none"> Annog pob darparwr perthnasol i ofal plant i ehangu'r ystod oedran maent yn darparu ar ei gyfer Yn unol â diwygiadau diweddar i reoliadau cofrestru, o dan wyth i dan ddeuddeg. Diwallu gofynion y Cynnig Gofal Plant 	<ul style="list-style-type: none"> Nid oes digon o ddarpariaeth ar ôl ysgol ar gyfer pobl ifanc 12 – 17 oed. Mae clybiau gwyliau yn darparu ar gyfer nifer fechan o blant dan bump oed 	<ul style="list-style-type: none"> Sefydliadau ymbarél yn rhoi esiamplau o ddarparwyr gofal plant sydd wedi ehangu eu hystod oedran 	<p><u>Mudiad Meithrin:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> Mae holl gylchoedd Meithrin bellach yn derbyn plant o 2 oed Mae Cylch Terrig, Cylch y Fflint a Chylch Treffynnon yn darparu gofal dydd llawn. Mae Cylch Shotton bellach yn darparu clwb cinio i blant aros am sesiynau hirach. <p><u>PACEY</u></p> <ul style="list-style-type: none"> Wrth ddarparu cymorth cyn cofrestru, mae PACEY Cymru yn annog y gofalwyr plant i ystyried gofalu am ystod oedran ehangach o 0-12 oed, gan gynnwys cynnig oriau amgen, gwyliau a darpariaeth estynedig. <p><u>Blynyddoedd Cynnar Cymru -</u></p> <ul style="list-style-type: none"> Tŷ Ffynnon Shotton, yn ehangu i gynnwys cyfleuster cylch chwarae o Ebrill 2021. Cylch chwarae Coed-llai wedi symud i'r ysgol i ddarparu cyfleuster gofal estynedig Ehangodd Meithrinfa a Mwy Sunshine Club ei oriau i ddarparu gofal estynedig yn y bore a'r prynhawn (gyda'r bwriad o ddarparu cyfleuster gwyliau yn y dyfodol agos) o fewn adeilad newydd ar safle'r ysgol Mae Trelogan yn darparu darpariaeth amser cinio ar gyfer plant meithrin i gynorthwyo'r ysgol.
<ul style="list-style-type: none"> Hyrwyddo mwy ar Gredydau 	<ul style="list-style-type: none"> Mae rhieni yn nodi mai fforddiadwyedd 	<ul style="list-style-type: none"> Gwaith a wnaed gan Sefydliadau 	<p>Mae sefydliadau ymbarél yn cadarnhau eu bod yn darparu gwybodaeth i hyrwyddo credydau treth, cynlluniau a gefnogir gan gyflogwyr a gofal plant di-dreth ar eu gwefannau, trwy'r</p>

Targed	Pam	Camau Gweithredu	Cynnydd
<p>Treth Gwaith neu Gredydau Cynhwysol a Chynlluniau Cymorth Cyflogwyr sydd ar gael (gan gynnwys y cynllun Gofal Plant Di-dreth cenedlaethol, newydd).</p>	<p>yw'r ffactor pwysicaf wrth iddynt ystyried eu dewisiadau gofal plant.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r rhai sy'n manteisio ar elfen gofal plant y Credyd Treth Gwaith a Chynlluniau Cymorth Cyflogwyr yn isel iawn yn Sir y Fflint. • Nid oedd tua 48% o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg rhieni / gofaluwr yn gwybod ym mhle y gallent gael gwybodaeth am gymorth ariannol â gofal plant. 	<p>Ymbarel i hyrwyddo credydau treth / credydau cynhwysol, cynlluniau a gefnogir gan gyflogwyr a gofal plant di-dreth.</p>	<p>cyfryngau cymdeithasol a bwletinau rheolaidd i ddarparwyr, yn ogystal ag ymateb i ymholiadau unigol.</p>
<p>Dylid annog a chefnogi darparwyr pob math o ofal plant heb eu</p>	<p>Ychydig iawn o leoliadau yn Sir y Fflint sydd heb eu cofrestru</p>	<p>Mae cefnogaeth yn cael ei rhoi i leoliadau gofal plant i gael eu cofrestru gydag AGC</p>	<p><u>Blynyddoedd Cynnar Cymru</u> Darparwyd cymorth i 3 darparwr ychwanegol er mwyn cofrestru:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Penyffordd,

Targed	Pam	Camau Gweithredu	Cynnydd
<p>cofrestru i gofrestru ag AGC.</p>			<ul style="list-style-type: none"> • Ffynnongroyw • Garden City <p>Mae 9 lleoliad sydd heb eu cofrestru yn derbyn cymorth gan bartneriaid CWLWM. Y lleoliadau hyn yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Clwb ar ôl Ysgol Queensferry • Clwb ar ôl Ysgol Chwitfordd • Clwb ar ôl Ysgol Cilcain • Clwb ar ôl Ysgol y Santes Fair (y Fflint) • Clwb ar ôl Ysgol Northop Hall • Clwb ar ôl Ysgol Gwernymynydd • Clwb ar ôl Ysgol Trelogan • Clwb ar ôl Ysgol Nercwys • Clwb ar ôl Ysgol Cornist Park
<ul style="list-style-type: none"> • Er mwyn bodloni anghenion gofal plant y rhai sy'n gweithio oriau annodweddia dol, mae angen mwy o ofal plant cyn 8am, ar ôl 6pm, dros nos ac ar 	<p>Mae llai na 50% o ddarparwyr gofal diwrnod llawn a gwarchodwyr plant yn cynnig sesiynau gofal hanner diwrnod.</p> <p>Mae darparwyr gofal sesiynol yn dueddol o ddarparu sesiynau bore neu bawn yn unig a chymharol ychydig o ofal cofleidiol neu glwb cinio.</p> <p>Ychydig iawn o ddarparwyr sy'n cynnig</p>	<p>Sefydliadau ymbarél yn cynnig enghreifftiau o leoliadau sy'n ymestyn eu horiau i ddiwallu anghenion pobl sy'n gweithio</p>	<p><u>PACEY Cymru</u></p> <p>Annog gofalwyr plant cyn cofrestru i ystyried cynnig oriau agor hyblyg ac amgen o fewn y sesiwn frifio a'r hyfforddiant a chefnogaeth cyn cofrestru. Mae cymorth ar gyfer y rhai sydd newydd gofrestru hefyd yn cynnwys trafodaeth ar lenwi llefydd gwag ac ystyried y farchnad/galw lleol ar gyfer gofal plant, gan gynnwys hyblygrwydd o ran oriau gofal plant a gynigir.</p> <p><u>Blynyddoedd Cynnar Cymru</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Tŷ Ffynnon Shotton, yn ehangu i gynnwys cyfleuster cylch chwarae o Ebrill 2021 i ddarparu gofal estynedig • Cylch chwarae Coed-llai wedi symud i'r ysgol i ddarparu cyfleuster gofal estynedig • Ehangodd Meithrinfa a Mwy Sunshine Club ei oriau i ddarparu gofal estynedig yn y bore a'r prynhawn (gyda'r

Targed	Pam	Camau Gweithredu	Cynnydd
<p>benwythnosa u.</p> <ul style="list-style-type: none"> Dylid annog darparwyr gofal dydd sesiynol a darparwyr gofal y tu allan i'r ysgol i estyn eu horiau i fodloni anghenion teuluoedd sy'n gweithio. 	<p>gofal plant cyn 8.00am neu ar ôl 6.00pm. Mae dau ddarparwr gofal plant yn darparu gofal penwythnos ac un darparwr ar gyfer gofal plant dros nos.</p>		<p>bwriad o ddarparu cyfleuster gwyliau yn y dyfodol agos) o fewn adeilad newydd ar safle'r ysgol</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae Trelogan yn darparu darpariaeth amser cinio ar gyfer plant meithrin i gynorthwyo'r ysgol.
<p>Dylid annog pob darparwr gofal plant i weithio ar y cyd i sicrhau fod rhieni sy'n gweithio yn gallu cael mynediad i ddarpariaeth addas i gyflawni'r Cynnig Gofal Plant</p>	<p>Fel yr uchod</p>	<p>Enghreifftiau o weithio ar y cyd i gynnig lleoedd ar gyfer y Cynnig Gofal Plant</p>	<p><u>Mudiad Meithrin:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> Yn dal i chwilio am ardaloedd ehangu posibl o fewn Sir y Fflint fel rhan o'r cynllun SAS. Mae'r Cynllun SAS yn cyfeirio at - Sefydlu a Symud, sy'n brosiect penodol gan Fudiad Meithrin i ymateb i strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru. Mae Mudiad Meithrin wedi derbyn cyllid ychwanegol i sefydlu 40 o gylchoedd meithrin newydd erbyn diwedd 2021 mewn ardaloedd lle nad oes mynediad at gylch meithrin ar hyn o bryd. Mae datblygiadau yn Ysgol Glanrafon yn golygu bydd dau gylch presennol yn uno, ond bydd y gwasanaethau a gynigir yn cael eu hehangu.

Targed	Pam	Camau Gweithredu	Cynnydd
			<p><u>PACEY Cymru</u> Rhannu gwybodaeth a hyrwyddo'r Cynnig Gofal Plant i ofalwyr plant sydd newydd gofrestru a sefydlu, ac annog cyfranogiad yn y broses ymgynghori a chynllunio ar gyfer datblygu gwasanaeth digidol Cynnig Gofal Plant cenedlaethol.</p> <p><u>Blynyddoedd Cynnar Cymru</u> Mae holl aelodau perthnasol wedi'u cofrestru i ddarparu'r Cynnig Gofal Plant, gan gynnwys</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhoddwyd cymorth i gylch chwarae cyn ysgol Brychdyn i sefydlu darpariaeth dros yr haf yn 2020 i ddarparu'r Cynnig Gofal Plant • Mae cylch chwarae Coed-llai yn darparu'r Cynnig Gofal Plant gyda'u gofal estynedig newydd • Rhoddwyd cymorth i Ddechrau'n Deg Sir y Fflint ar gyfer y ddarpariaeth gofal plant newydd yn garden City • Cymorth i gylch chwarae Sychdyn i gofrestru lleoliad mewn adeilad newydd i ddarparu gofal dydd llawn. Mae hyn yn cynnwys Cynnig Gofal Plant a gofal estynedig ac ati.
Datblygu darpariaeth gofal yn ystod gwyliau yn yr Wyddgrug a Threffynnon.	Diffyg lleoedd gofal yn ystod gwyliau mewn nifer o leoliadau, ond yn arbennig yr Wyddgrug a Threffynnon.	Estyniad Ysgol Glanrafon yn yr Wyddgrug	<p><u>Mudiad Meithrin:</u> Gweithio gyda Chylch Meithrin Glanrafon a Chylch Meithrin yr Wyddgrug i uno er mwyn ffurfio chylch newydd a fydd yn agor ar safle Ysgol Glanrafon. Bydd y cylch meithrin newydd ynn cynnig gofal dydd llawn i blant 2 – 4 oed gan ddarparu ystod lawn o wasanaethau gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gofal plant estynedig • Cynnig gofal Plant 30 awr • Addysg gynnar a • Dechrau'n Deg.

Targed	Pam	Camau Gweithredu	Cynnydd
			<p>Mae'r tîm Datblygu Gofal Plant mewn trafodaethau gyda Chlwb ar ôl Ysgol yn Ysgol Glanrafon i ehangu eu cofrestriad i ddarparu clwb gwyliau o fewn y cyfleuster uchod.</p> <p>Mae cyfalaf Llywodraeth Cymru wedi cynorthwyo'r datblygiad.</p> <p><u>Clybiau Plant</u> Yn ystod pandemig Covid-19 yn 2020, mae wedi bod yn anodd cynyddu'r ddarpariaeth gofal dros y gwyliau. Bydd Clybiau Plant Cymru yn parhau i gefnogi darpariaeth sydd heb gofrestru mewn ardaloedd a nodir, i gofrestru gydag AGC gyda'r golwg i ehangu i ddarparu darpariaeth dros y gwyliau.</p> <p><u>Blynyddoedd Cynnar Cymru</u> Sefydlwyd clwb gwyliau newydd ym Mrychdyn trwy ehangu cofrestriad AGC cylch chwarae cyn ysgol Brychdyn.</p>
<p>Mae angen mwy o ofal plant cyfrwng Cymraeg o bob math ym mhob ardal yn Sir y Fflint, yn enwedig y rhai sy'n darparu gofal diwrnodau llawn yn ystod y tymor a gwyliau'r ysgol. Dylid annog pob lleoliad gofal plant i ddarparu rhai</p>	<ul style="list-style-type: none"> • 30% yn unig o rieni a gwblhaodd yr arolwg oedd yn credu bod digon o ofal plant cyfrwng Cymraeg ar gael yn y Sir. • Nid oes gan Sir y Fflint unrhyw warchodwyr plant, clybiau gwyliau, crèches, nanis na meithrinfeydd gofal dydd cofrestredig 	<p>Sefydliadau ymbarél yn rhoi manylion gwaith a wnaed i annog datblygiad darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Hefyd darparu manylion cyrsiau hyfforddi/ adnoddau sy'n annog lleoliadau gofal plant i fod yn ddwyieithog.</p>	<p><u>Mudiad Meithrin:</u> Mae mwyafrif y sesiynau a ddarperir wedi symud ar-lein ac wedi derbyn presenoldeb da. Isod mae rhestr o'r sesiynau a gyflawnwyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cymraeg i Blant • Clwb Cwtsh – cynllun wedi'i anelu at gyflwyno Cymraeg i rieni a gofalwyr Ailddechreuodd sesiynau ym mis Hydref a byddent yn cael eu cynnal eto ym mis Ionawr a Mawrth. • Croesi'r Bont – defnyddir y cynllun iaith hwn ar draws holl gylchoedd meithrin yn Sir y Fflint ac mae'n gwella cyrhaeddiad plant. • Ti a Fi – Yn ystod y pandemig, roedd rhaid i holl weithgarwch Ti a Fi stopio.

Targed	Pam	Camau Gweithredu	Cynnydd
elfennau dwyieithog, o leiaf	sy'n darparu eu gwasanaethau yn Gymraeg.		<p>Ers mis Medi 2020 mae sesiynau am dro Ti a Fi wedi bod yn rhedeg yn Sir y Fflint. Mae presenoldeb da wedi bod yn y sesiynau hyn, gyda'r mwyafrif o sesiynau wedi gwerthu allan. Mae sesiynau Ti a Fi hefyd wedi cael eu cynnal ar-lein.</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae Mudiad Meithrin wedi bod yn darparu sesiynau clwb cylch wythnosol ar Facebook er mwyn sicrhau bod plant yn dal i gael cyfle i glywed y Gymraeg. <p><u>Clybiau Plant Cymru</u></p> <ul style="list-style-type: none"> Mae ganddynt ystod o adnoddau ar gael i leoliadau sy'n aelodau i'w hannog i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg, ynghyd ag ymgysylltiad parhaus ym mhrosiect Camau trwy bartneriaeth CWLWM. Mewn partneriaeth gyda Mudiad Meithrin, byddent yn cyflawni ymarfer cwmpasu i ganfod bylchau mewn darpariaeth Gymraeg a chefnogi darpariaethau cyfrwng Cymraeg i ehangu eu gwasanaethau a chynyddu gofal plant cyfrwng Cymraeg. <p><u>PACEY Cymru</u></p> <p>Wedi parhau i ehangu'r gefnogaeth ac adnoddau ar gael i annog gofalwyr plant i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg o fewn y lleoliad ac i fod yn ddwyieithog. Mae amrywiaeth cynyddol o adnoddau, gan gynnwys syniadau gweithgareddau thema Cymraeg gyda geirfa a fideos i gyd-fynd er mwyn cefnogi ynganiad, ar gael ar 'Datblygu'r Gymraeg' ar ein gwefan. Mae PACEY Cymru yn parhau i gynnig gweminarau cymorth ½ awr am ddim, bob mis, ynghyd â chymorth dros e-bost neu dros y ffôn, yn ogystal â hyrwyddo hyfforddiant Cymraeg Camau ar gyfer y sector.</p> <p><u>NDNA Cymru</u></p>

Targed	Pam	Camau Gweithredu	Cynnydd
			<p>Mae Cydlynnydd Prosiect Cymraeg wedi darparu sesiynau cefnogi Cymraeg dros zoom, wedi cefnogi gyda chyfieithu, darparu cymorth gydag ynganu a syniadau ar gyfer patrymau iaith i annog a hyrwyddo'r Gymraeg o fewn lleoliadau.</p> <p><u>Blynyddoedd Cynnar Cymru</u></p> <ul style="list-style-type: none"> Mae holl bartneriaid CWLWM yn hyrwyddo cyllid CAMAU a'r Ganolfan Genedlaethol Dysgu Cymraeg, sydd i ddechrau ym Mai 2021. Mae Cydlynnydd y Gymraeg wedi bod yn cefnogi lleoliadau gyda gwybodaeth ar y Cynnig Gweithredol
<ul style="list-style-type: none"> Dylid cefnogi lleoliadau er mwyn annog teuluoedd ag ieithoedd eraill i ddefnyddio lleoliadau gofal plant sefydledig. Gwella cefnogaeth i rieni sy'n cwblhau'r arolwg ar-lein honno i rieni 	<p>Mae data FISF yn dangos bod y galw am ddarpariaeth gofal plant mewn ieithoedd eraill heb law am Saesneg neu Gymraeg yn isel.</p> <p>Nid yw'r ddarpariaeth ar gael yn Sir y Fflint.</p> <p>Dim ond un rhiant gydag iaith arall gwblhaodd yr arolwg i rieni</p>	<p>Dylid cefnogi lleoliadau er mwyn annog teuluoedd ag ieithoedd eraill i ddefnyddio lleoliadau gofal plant sefydledig.</p>	<p><u>Mudiad Meithrin:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> Wedi cynhyrchu taflen wybodaeth amlieithog yn hyrwyddo buddion Addysg/Gofal Plant Cyfrwng Cymraeg. Wedi ymgysylltu â'r gymuned Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) i sicrhau mwy o gynrychiolaeth. Bydd aelod o staff o Gylch Meithrin yn Sir y Fflint yn cynrychioli'r gymuned BAME ar weithgor newydd sy'n edrych ar y cwricwlwm newydd. Darperir cymorth ar gyfer holl staff a chylchoedd mewn perthynas â newidiadau yn unol â'r ddeddf ADY newydd. <p><u>Blynyddoedd Cynnar Cymru</u></p> <p>Cefnogir ac anogir holl leoliadau i weithio gyda theuluoedd sy'n siarad ieithoedd eraill. Cânt eu cynnwys waeth beth yw eu hiaith, a byddwn yn cefnogi teuluoedd i ddod o hyd i adnoddau ychwanegol ac ati i'w cynorthwyo yn y lleoliad a gartref.</p>
<p>Er bod anawsterau wedi bod o ran cysylltu â phobl yn gyffredinol, yn sgil cyfyngiadau Covid-19, mae ymgysylltiad gyda gwasanaethau wedi parhau er mwyn codi ymwybyddiaeth o ofal plant a gyrfa posibl yn y maes. Fel y dangosir uchod, cofrestrodd 4 gofalwr plant eleni, ond canslodd 5 eu cofrestriad; o'r rhai sydd newydd gofrestru nid oes yr un mewn ardaloedd gwledig. Mae cwpl o ofalwyr plant sy'n cynnig gwasanaethau dros y penwythnos yn ôl gwybodaeth AGC, fodd bynnag mae'r rhai yn debygol o fod yn annigonol i fodloni galw'r</p>			

Targed	Pam	Camau Gweithredu	Cynnydd
rhai sy'n gweithio ar benwythnosau. Ymddangosir bod unrhyw ofalwyr plant wedi cofrestru i ddarparu gwasanaeth tu hwnt i 7pm, gyda'r mwyafrif yn darparu gofal tan 6pm. Mae darpariaeth Cymraeg yn brin ac yn ôl gwybodaeth y Cyfrifiad, roedd lleihad yn y gyfran o siaradwyr Cymraeg yn Sir y Fflint rhwng 2001 14.4% a 2011 13.2%.			

Materion yn wynebu categorïau penodol o rieni mewn perthynas ag argaeledd darpariaeth gofal plant

Targed	Pam	Camau Gweithredu	Cynnydd
Mae angen hyfforddiant a chefnogaeth ddigonol ar leoliadau heb eu cofrestru i'w galluogi i gofrestru gydag AGC.	Mae nifer fechan o leoliadau gofal plant heb eu cofrestru gydag AGC felly ni all rhieni gael mynediad at elfen gofal plant y credydau treth gwaith neu ddefnyddio cynlluniau talebau gofal plant (i gael ei ddisodli gyda'r cynllun Gofal Plant Di-dreth) a'r Cynnig Gofal Plant.	Swyddog Datblygu Gofal Plant a sefydliadau ymbarél yn rhoi manylion hyfforddiant a chefnogaeth sydd ar gael i'r rhai sy'n awyddus i gofrestru gydag AGC	<p><u>Tîm Datblygu Gofal Plant</u> Mae'r tîm wedi darparu rhestr hyfforddi gyfyngedig yn sgil cyfyngiadau Covid-19 sydd wedi cynnwys cyrsiau Cymorth Cyntaf Pediatrig a chwrs Ymwybyddiaeth Diogelu ar-lein. Cwblhawyd nifer fechan o gyrsiau Makaton.</p> <p><u>PACEY Cymru</u> Mae PACEY yn cael ei gyllido gan yr awdurdod lleol i ddarparu ystod o wasanaethau i gefnogi unigolion sy'n chwilio i gofrestru fel gofalwyr plant yn Sir y Fflint. Yn sgil cyfyngiadau Covid-19, mae'r gwasanaethau hyn wedi cael eu darparu o bell er mwyn sicrhau bod y gefnogaeth yn parhau i fod ar gael. Mae hyn wedi cynnwys cynnig i ymgeiswyr yn Sir y Fflint gael mynediad at lefydd ar sesiynau</p>

Targed	Pam	Camau Gweithredu	Cynnydd
			<p>briffio gweminar, cyrsiau hyfforddi ar-lein cyn cofrestru, a chyfres o weiminarau cymorth cyn cofrestru, ynghyd â chymorth wedi'i deilwra dros y ffôn neu e-bost a sesiynau cyngor. Mae PACEY Cymru wedi codi ymwybyddiaeth o ganllawiau cofrestru diwygiedig AGC gydag ymgeiswyr cyn cofrestru. Mae PACEY Cymru hefyd wedi rhannu gwybodaeth ar y broses o wneud cais i'r awdurdod lleol am grant sefydlu ynghyd â ffurflenni ar gyfer eu cwblhau gydag unigolion pan maent yn cyflwyno eu cais cofrestru i AGC.</p> <p><u>NDNA</u> Nifer o adnoddau ar gael i'r rhai sy'n dymuno dechrau busnes meithrinfa ar eu gwefan a chynnig gwasanaeth ymgynghoriaeth os oes angen.</p> <p><u>Blynyddoedd Cynnar Cymru</u> Mae'r Swyddog Llywodraethu wedi bod yn cefnogi 45 o ddarpariaethau a reolir yn wirfoddol trwy'r broses o ymgorffori neu ddiweddarau eu statws cyfreithiol, ac mae nifer wedi gorfod cofrestru elusen newydd, trosglwyddo a diddymu'r hen elusen ac ailgofrestru gydag AGC.</p>
Er mwyn bodloni anghenion gofal plant y rhai sy'n gweithio oriau annodweddiadol,	Diffyg hyblygrwydd a fforddiadwyedd gofal plant yw'r prif rwystrau a wynebwr gan rieni sy'n gweithio, yn arbennig y	Sut mae Swyddog Datblygu Gofal Plant a'r sefydliadau ymbarél yn mynd ati'n ymarferol i annog lleoliadau i	<u>PACEY Cymru</u> Annog gofalwyr plant cyn cofrestru i ystyried cynnig oriau agor hyblyg ac amgen o fewn y sesiwn friffio a'r hyfforddiant a chefnogaeth cyn cofrestru. Mae cymorth ar gyfer y rhai sydd newydd gofrestru hefyd yn cynnwys trafodaeth ar

Targed	Pam	Camau Gweithredu	Cynnydd
<p>mae angen mwy o ofal plant cyn 8am, ar ôl 6pm, dros nos ac ar benwythnosau.</p>	<p>rhai sy'n gweithio oriau annodweddiadol h.y. gweithwyr shifft a'r rhai hynny sy'n gweithio ar y penwythnos neu dros nos</p>	<p>ymestyn eu horiau / bod yn fwy hyblyg</p>	<p>lenwi llefydd gwag ac ystyried y farchnad/galw lleol ar gyfer gofal plant, gan gynnwys hyblygrwydd o ran oriau gofal plant a gynigir.</p> <p><u>Blynyddoedd Cynnar Cymru</u> Mae Swyddogion Datblygu yn ymwybodol o'r bylchau mewn darpariaeth, trafodir y bylchau hyn gyda phartneriaid amrywiol yn y sector yn Sir y Fflint ac yna gweithredir ar hyn. Trafodir dewisiadau gyda darparwyr a darperir y cymorth perthnasol. Rhoddwyd cymorth i gylch chwarae cyn ysgol Brychdyn i sefydlu darpariaeth dros yr haf yn 2020 a chynyddu oriau.</p>
<p>Mae angen mwy o ofal plant cyfrwng Cymraeg o bob math ym mhob ardal yn Sir y Fflint, yn enwedig y rhai sy'n darparu gofal diwrnodau llawn yn ystod y tymor a gwyliau'r ysgol.</p>	<p>Nid yw rhieni sy'n gweithio sydd angen darpariaeth gofal diwrnod llawn yn gallu cael mynediad at unrhyw ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg</p>	<p>Sefydliadau ymbarél yn rhoi manylion ynglŷn â sut y gallent gefnogi'r rhai hynny sydd â diddordeb mewn darparu gwasanaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg</p>	<p><u>Mudiad Meithrin:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae Swyddog Cefnogi dynodedig sy'n gweithio'n agos gyda'r holl gylchoedd i edrych ar agweddau o gydymffurfiaeth AGC. • Mae gan yr holl gylchoedd fynediad at fewnrwyd Mudiad Meithrin a'r Llyfr Mawr Piws sy'n cynnwys cyfoeth o wybodaeth ar holl faterion AGC. • Mae Swyddog Cefnogi yn gweithio'n benodol gyda lleoliadau i drosglwyddo i statws Sefydliad Corfforedig Elusennol ac ailgofrestru gydag AGC • Mae Swyddog Cefnogi yn gweithio gyda lleoliadau i sicrhau bod ganddynt gynllun busnes cyfredol a'u bod yn addasu eu gwasanaeth i fodloni'r galw lleol.

Targed	Pam	Camau Gweithredu	Cynnydd
			<p><u>Clybiau Plant Cymru</u> Cefnogi holl glybiau gofal plant tu allan i'r ysgol o ran cofrestriad AGC. Mae adnoddau wedi cael eu datblygu ar 'Fuddion cofrestru', yn ogystal â darparu gweminarau ar 'Mynd i'r afael â rhwystrau archwiliadau'.</p> <p><u>PACEY Cymru</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Adnoddau cyfrwng Cymraeg / dwyieithog i hyrwyddo gofal plant fel gyrfa ac yn cynnig gwybodaeth a chymorth hyfforddiant cyn cofrestru dwyieithog / cyfrwng Cymraeg ar gyfer y rhai sy'n bwriadu cofrestru fel gofalwyr plant yng Nghymru. • Wedi parhau i ehangu'r gefnogaeth ac adnoddau ar gael i annog gofalwyr plant i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg o fewn y lleoliad ac i fod yn ddwyieithog. • Mae amrywiaeth cynyddol o adnoddau, gan gynnwys syniadau gweithgareddau thema Cymraeg gyda geirfa a fideos i gyd-fynd er mwyn cefnogi ynganiad, ar gael ar 'Datblygu'r Gymraeg' ar y wefan. Mae PACEY Cymru yn parhau i gynnig gweminarau cymorth ½ awr am ddim bob mis, • Cymorth unigol dros y ffôn neu e-bost, yn ogystal â hyrwyddo hyfforddiant Cymraeg Camau ar gyfer y sector. • Dogfen ar gael yn amlinellu'r ystod o gymorth ac adnoddau sydd gan PACEY Cymru i gynnig.

Targed	Pam	Camau Gweithredu	Cynnydd
Parhau i hyrwyddo'r prosiect PaCE	Mae Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE) yn darparu cyllid ar gyfer Gofal Plant i gefnogi rhieni / gwarcheidwaid sy'n ceisio cyfleoedd gwaith neu hyfforddiant, pan mai Gofal Plant yw'r prif rwystr	Parhau i hyrwyddo'r prosiect PaCE	<p>Y prif rwystr mae PaCE yn ei weld yw cael mynediad at ofal plant fforddiadwy ar gyfer rhieni ar incwm isel/budd-daliadau. Ni all rhieni sy'n dymuno ennill cymhwyster neu brofiad gwaith er mwyn cael mynediad at y farchnad lafur/bod yn barod am swydd, wneud hynny oherwydd nad allent fforddio rhoi eu plentyn/plant mewn gofal plant ac nid yw cyllid ar gael yn unrhyw le arall.</p> <p>Rhwyrstr arall yw argaeledd gofal plant. Mae llawer o swyddi yn waith shifft y dyddiau hyn, ond yn gyffredinol mae darparwyr gofal plant ar gael yn ystod yr wythnos rhwng 8am-6pm. Byddai nosweithiau a phenwythnosau yn ychwanegiad defnyddiol gan y byddai hyn yn agor swyddi manwerthu, glanhau, gofalu.</p> <p>Mae PaCE yn cynnig datrysiad i'r gost o ofal plant, gan y gall PaCE gyllido costau gofal plant i alluogi rhiant i gael mynediad at gyrsiau hyfforddi ac ati.</p> <p>Gall PaCE hefyd helpu gyda CV's, chwilio a gwneud ceisiadau am swyddi, cefnogaeth a hybu hyder.</p> <p>Mae PaCE yn cynnig cymorth un i un wedi'i deilwra i ganfod gofal plant lleol addas a chyllid lle bo'n gymwys, a chymorth gyda chostau gofal plant ymlaen llaw wrth ddechrau gwaith.</p>
Dylai cefnogaeth i gwblhau ceisiadau am	Gall y broses weinyddol weithiau oedi neu eithrio rhai	Dylai cefnogaeth i gwblhau ceisiadau am	<p><u>Cefnogi Blynyddoedd Cynnar</u> Mae'r newyddlen yn cynnwys diweddariadau rheolaidd am fudd-daliadau, gan gynnwys</p>

Targed	Pam	Camau Gweithredu	Cynnydd
<p>gyllid gofal plant a chredydau treth fod ar gael i bawb</p>	<p>teuluoedd ar incymau isel rhag ceisio am gyllid neu gredydau treth.</p> <p>Yn ymwneud â: Theuluoedd ar incwm isel Teuluoedd rhieni sengl Teuluoedd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol</p>	<p>gyllid gofal plant a chredydau treth fod ar gael i bawb</p>	<p>credydau treth, credydau cynhwysol, gofal plant di-dreth a thalebau gofal plant. Mae'r tîm Datblygu Gofal Plant wedi datblygu 'E-ffurflenni' ar gyfer y mwyafrif o geisiadau grant a cafodd y system newydd ei lansio yn Ebrill 2021.</p> <p><u>FISF</u> Gall y tîm gyfeirio rhieni ar gefnogaeth i gwblhau ceisiadau Credydau Treth.</p> <p><u>Mudiad Meithrin</u> Hyrwyddo'r holl grantiau sydd ar gael i leoliadau a rhieni yn lleol a chenedlaethol. Rhoddir cefnogaeth i gwblhau unrhyw ffurflenni neu geisiadau os oes angen.</p> <p><u>Clybiau Plant Cymru</u> Hyrwyddo buddion i Glybiau Gofal Plant tu allan i'r ysgol gofrestru ar gyfer Gofal Plant Di-Dreth i gefnogi rhieni a theuluoedd i gael mynediad at ofal plant fforddiadwy.</p>
<p>Parhau i hyrwyddo Cymorth Ychwanegol a Ariennir ymysg rhieni a darparwyr gofal plant</p>	<ul style="list-style-type: none"> Ni chyfeiriwyd at hyn gan unrhyw fudd-ddeiliaid fel rhwystr, gan fod darpariaeth i blant gydag anghenion addysgol arbennig neu anabled 	<p>Parhau i hyrwyddo grant Cymorth Ychwanegol a Ariennir ymysg rhieni a darparwyr gofal plant</p>	<p><u>Tîm Datblygu Gofal Plant</u></p> <ul style="list-style-type: none"> Gwasanaeth pwrpasol gan Blynnyddoedd Cynnar Cymru i ddarparu elfennau o'r rôl Swyddog Broceriaeth Gofal Plant sydd wedi cynnwys cefnogi rhieni a lleoliadau gyda cheisiadau grant Cymorth Ychwanegol a Ariennir, arsylwi a monitro anghenion cymorth ychwanegol plant.

Targed	Pam	Camau Gweithredu	Cynnydd
	<p>yn dda iawn yn Sir y Fflint Fodd bynnag, rhaid parhau i hyrwyddo.</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae cymorth ariannol ar gael drwy'r grantiau cymorth ychwanegol i gyflogi staff ychwanegol i integreiddio'r plant hyn o fewn y lleoliad. 		<ul style="list-style-type: none"> Gweinyddu taliadau o'r grantiau Cymorth Ychwanegol ar gyfer y Cynnig Gofal Plant a'r grant Chwarae a Gofal Plant Hyblyg. Fe gyllidodd y grantiau hyn lefydd ar gyfer 152 o blant yn ystod 2020/21.
<p>Defnydd o'r Grant Cymorth Ychwanegol ar gyfer y Cynnig Gofal Plant</p>		<p>Defnydd o'r Grant Cymorth Ychwanegol ar gyfer y Cynnig Gofal Plant.</p>	<p><u>Tîm Datblygu Gofal Plant</u> Yn prosesu ceisiadau Cymorth Ychwanegol Cynnig Gofal Plant ac yn cyfrannu at benderfyniadau dyfarnu. Yn ystod y flwyddyn ariannol hon</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae 43 o blant wedi elwa o daliadau grant Cymorth Ychwanegol Mae 6 o ddarparwyr gofal plant wedi derbyn grant offer / adnoddau i gefnogi plentyn Cynnig Gofal Plant yn eu lleoliad Nid oes unrhyw leoliad wedi derbyn hyfforddiant pwrpasol i alluogi lleoliadau i ddarparu cefnogaeth fwy priodol i blant ag anghenion ychwanegol yn eu lleoliad.
<p>Yn sgil cyfyngiadau Covid-19, mae wedi bod yn heriol ceisio parhau i ymgysylltu gyda darparwyr gofal plant, oherwydd y gallu i gysylltu neu oherwydd eu bod wedi cau dros dro. Fodd bynnag, mae sefydliadau ymbarél wedi gweithio'n dda i ymgysylltu â darparwyr gofal</p>			

Targed	Pam	Camau Gweithredu	Cynnydd
plant gan ddefnyddio dulliau gwahanol megis fforymau ar-lein, y cyfryngau cymdeithasol a'u gwefannau. Mae hyn wedi sicrhau bod hyfforddiant, cyngor a chymorth wedi parhau i gael eu darparu i sicrhau bod darparwyr gofal plant yn bodloni anghenion eu cymunedau.			

Materion eraill i'w hadlewyrchu yn y cynllun gweithredu

Targed	Pam	Camau Gweithredu	Cynnydd
Cynnal y sector gofal plant	<ul style="list-style-type: none"> • Straen ariannol cynyddol ar leoliadau gofal plant, er enghraifft y cyflog byw, costau rhent, gofynion pensiwn, cyfleustodau a threthi busnes. • Gofyniad cynyddol ar leoliadau i lenwi dogfennau rheoleiddio gofynnol yn ddigidol e.e. SASS 1 a 2. • Y nifer fawr o leoliadau sy'n gweithredu dan bwyllgorau rheoli gwirfoddol, gyda newidiadau blynyddol i'r aelodaeth. 	<ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau cyllid parhaus ar gyfer y sector. 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r grant Chwarae a Gofal Plant Hyblyg yn dyfarnu grantiau Cynaliadwyedd i gefnogi darparwyr gofal plant sy'n ei chael yn anodd yn ariannol. Bydd y grant at gael yn ystod 2021 – 2022 i gefnogi darparwyr gofal plant ar draws Sir y Fflint, ond mae'r grant llawn a ddyfernir yn gyfyngedig. • Mae'r grantiau canlynol wedi cael eu gweinyddu gan y Tîm Cymorth y Blynyddoedd Cynnar i gefnogi darparwyr gofal plant yn ystod cyfnod Covid-19: <ul style="list-style-type: none"> • Cynllun Cymorth Gofal Plant y Coronafeirws • Grant Darparwyr Gofal Plant • Grant Cynhaliaeth Covid-19 i Ddarparwyr Gofal Plant • Grant Datblygu Gofal Plant y Coronafeirws • Grant Cyfalaf Bychan Covid-19 y Cynnig Gofal Plant.

		<ul style="list-style-type: none"> Hyrwyddo'r grantiau sydd ar gael i leoliadau a rhieni yn gyson. Buddsoddiad parhaus mewn cefnogaeth TG i leoliadau sy'n cwblhau SASS Rhan 1 a 2 	<p>Prosesodd y grant cyfalaf bychan 40 o geisiadau gwerth £246,415.03. Mae hyn wedi gwneud gwir wahaniaeth i leoliadau gofal plant a chymunedau.</p> <p><u>PACEY</u> Mae cynaliadwyedd ariannol wedi bod yn bryder penodol ar gyfer y sector eleni, ac mae PACEY Cymru (fel holl bartneriaid) wedi gweithio yn hynod o galed i godi ymwybyddiaeth o'r pryderon hyn, ac i rannu gwybodaeth a hyrwyddo cymorth ariannol oedd ar gael.</p> <p><u>Clybiau Plant Cymru</u> Trwy gydol pandemig Covid-19, mae Clybiau Plant Cymru wedi parhau i lobïo Llywodraeth Cymru i sicrhau fod cyllid ar gyfer y Sector Gofal Plant, wrth barhau i gefnogi Clybiau Gofal Plant tu allan i'r ysgol i gael mynediad at grantiau/cyllid i gefnogi cynaliadwyedd.</p> <p>Mae adnoddau hefyd wedi cael eu datblygu gan y Swyddog Datblygu Busnes Gofal Plant, Gogledd Cymru ar ysgrifennu ceisiadau cynllunio. Hefyd yn hyrwyddo grantiau lleol a chenedlaethol sydd ar gael i glybiau gofal plant tu allan i'r ysgol trwy'r cyfryngau cymdeithasol a'u newyddlen Y Bont.</p> <p><u>NDNA Cymru</u> Wedi hyrwyddo'r grantiau Cyfalaf Bychan a grantiau Cynaliadwyedd i holl leoliadau trwy ddiweddariadau rheolaidd trwy'r e-fwletin a'r newyddlen a thrwy gyfarfodydd rhwydweithio.</p>
--	--	--	---

		<p><u>Tîm Datblygu Gofal Plant</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae chwe gliniadur y gellir eu rhoi ar fenthyg am ddim i leoliadau gofal plant i gynorthwyo i gwblhau SASS 1 a 2, cofrestru â DEWIS a gweinyddu'r Cynnig Gofal Plant. • Prynodd 6 lleoliad gyfarpar TG newydd i'w cynorthwyo i weinyddu'r Cynnig Gofal Plant trwy geisiadau llwyddiannus am grant cyfalaf bach. <p><u>Mudiad Meithrin:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Swyddog Cefnogi yn hyrwyddo holl grantiau gyda'r cylchoedd meithrin – grantiau lleol a chenedlaethol. • Rhoddir cefnogaeth gan y swyddog cefnogi i gwblhau ceisiadau grant. <p><u>Blynyddoedd Cynnar Cymru</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae Blynyddoedd Cynnar Cymru yn cefnogi darparwyr gyda materion yn ymwneud â chynaliadwyedd, darparu templedi cynllun busnes a gwybodaeth ddefnyddiol ynghylch grantiau. • Rydym hefyd yn darparu cymorth ategol ar gyfer ceisiadau aelodau yn ôl y gofyn i gyfarfodydd panel yr ALI a Phartneriaethau yn ogystal ag anfon cynrychiolydd yn ôl yr angen. • Derbyniodd 17 o ddarparwyr plant elusennol yn Sir y Fflint gyfanswm o £47,645 yn uniongyrchol gan Sefydliad Moondance ar ôl i'r tîm rannu dolenni. Gan fod Moondance wedi cefnogi gymaint o leoliadau sy'n aelodau, trefnwyd cyfarfod i drafod y cymorth ychwanegol y gallent ei
--	--	---

			<p>gynnig i leoliadau yn Sir y Fflint. Darparwyd cyllid i fasnachwyr unigol a phartneriaethau, a phan wariwyd y cyllid, sicrhawyd cyllid ychwanegol i gefnogi aelodau newydd a oedd wedi cymryd mantais o'r cynnig aelodaeth am ddim. Gwnaeth 58 o fasnachwyr unigol oedd yn aelodau, gais gan dderbyn grant bach a ddefnyddiwyd yn bennaf ar gyfer offer awyr agored a deunyddiau glanhau ychwanegol yn sgil Covid-19.</p>
Trefniadau trawsffiniol effeithiol	Dim trefniadau trawsffiniol ar gyfer prosesu grantiau Cymorth Ychwanegol na grantiau Chwarae a Gofal Plant	<ul style="list-style-type: none"> Sefydlu trefniadau trawsffiniol ar gyfer prosesu grantiau Cymorth Ychwanegol neu grantiau Chwarae a Gofal Plant Cysondeb gyda chynlluniau a rhaglenni Blynyddoedd Cynnar eraill 	Mae'r Tîm Datblygu Gofal Plant a Chyfle Cynnar yn cydweithio i greu llwybr mwy clir ar gyfer atgyfeiriadau ar gyfer plant gydag anawsterau datblygiadol a chydweithio i gadarnhau ar ba bwynt mae'n briodol i roi cyllid ychwanegol mewn lle.
Cymorth a Chyllid ar gyfer Hyfforddiant a Datblygu'r Gweithlu	<ul style="list-style-type: none"> Dibyniaeth ar grant Plant a Chymunedau Llywodraeth Cymru i gyllido'r rhestr hyfforddi gorfodol ar gyfer y gweithlu gofal plant Dealltwriaeth lleoliadau gofal plant o 	<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau cyllid ar gyfer yr amserlen hyfforddiant orfodol a chyfleoedd hyfforddi ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Parhaus. 	<p><u>PACEY Cymru</u></p> <p>Mae'r grant Plant a Chymunedau wedi cefnogi hyfforddiant a chymorth cyn cofrestru gan PACEY Cymru i'r rhai sy'n bwriadu cofrestru fel gofawyr plant neu ymuno â'r Cynllun Cymeradwyaeth Gwirfoddol ar gyfer Nanis Sir y Fflint. Yn ystod y cyfyngiadau presennol, mae hyn wedi cynnwys cefnogaeth ar gyfer hyfforddiant a chymorth ar-lein ar</p>

	<p>gymwysterau 'priodol' fel sy'n ofynnol yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol (13.6 ac 13.7)</p>	<p>gyfer y rhai sy'n bwriadu symud ymlaen. Rhwng Medi 2020 a Chwefror 2021, mae hyn wedi cefnogi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • 14 o unigolion i fynyachu sesiwn friffio ac archwilio eu diddordeb i ddod yn ofalwyr plant neu nanis. • 9 lle hyfforddi cyn cofrestru ar-lein ar gyfer unigolion sy'n bwriadu cofrestru fel gofalwyr plant • 1 lle hyfforddiant cyflwyniad i ofal plant yn y cartref ar gyfer unigolyn sy'n bwriadu dod yn nani ar y Cynllun Cymeradwyaeth Gwirfoddol. • Cynigir cymorth ychwanegol o bell dros y ffôn neu e-bost, a sesiynau gweminar. • Hefyd yn cynnig ystod o hyfforddiant o bell a chyfleoedd Datblygiad Proffesiynol Parhaus trwy gydol y flwyddyn, yn ogystal â chynnig gweminar fforwm gofal plant bob mis yn dilyn o'r gweminarau ailagor, a oedd yn canolbwyntio ar Covid-19 a chanllawiau mesurau diogelu. Mae hyn wedi cynnwys gweminarau sy'n canolbwyntio ar ystod o destunau a amlinellir yn Gweminarau ar gyfer Cymru, gydag amrywiaeth cynyddol o'r rhain ar gael am ddim ar gyfer holl ofalwyr plant yng Nghymru, ynghyd â digwyddiadau gweminar sy'n canolbwyntio ar ddweud stori gydag awdur gwadd Mike Church. • Ym Mehefin 2021, lanswyd EY smart yng Nghymru, yn darparu adnoddau Datblygiad Proffesiynol Parhaus hygyrch, o safon uchel gyda gwybodaeth a sgiliau i'w cefnogi yn natblygiad eu hymarfer. Mae amrywiaeth o gyrsiau newydd yn parhau i gael eu hychwanegu. <p><u>NDNA Cymru</u></p>
--	---	--

		<p>Yn cynnig ystod eang o gyfleoedd hyfforddi ar-lein. Maent hefyd wedi cyflwyno eu llwyfan Dosbarth Byw Ar-lein, sy'n caniatáu profiad dysgu rhyngweithiol ar-lein.</p> <p><u>Mae'r Cynllun Lleoliadau Cyn-ysgol Cynaliadwy (HSPSS)</u> yn gynllun cenedlaethol a reolir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, sy'n cael ei gydlynu yn Sir y Fflint fel estyniad i'r Cynllun Ysgolion Iach. Mae lleoliadau cyn ysgol yn gweithio i hyrwyddo a gwarchod pob agwedd ar iechyd gan gynnwys gweithgarwch corfforol, iechyd maeth a cheg, emosiynol a chymdeithasol, diogelwch, hylendid a lles eu staff. Rhwng Ebrill 2020 a Mawrth 2021, cymerodd 45 o ddarparwyr gofal plant ran yn y cynllun, cwblhaodd 1 darparwr gofal plant y Cynllun yn llawn, gan ddod â chyfanswm sydd wedi'i gwblhau hyd yma i 20. Yn ogystal â darparu cefnogaeth i leoliadau i gwblhau'r themâu, mae'r swyddog HSPSS yn gweithio mewn partneriaeth â Design 2 Smile a'r dietegwyr o Betsi Cadwaladr yn ogystal ag asiantaethau eraill i gynnig hyfforddiant a gweithdai perthnasol i leoliadau sy'n cymryd rhan yn y cynllun. Dros y 12 mis diwethaf, mae'r Swyddog Cyn-Ysgol Iach wedi gweithio mewn partneriaeth gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, gan gydweithio a hyrwyddo hyfforddiant dysgu yn yr awyr agored ar gyfer staff cyn-ysgol.</p> <p>Mae grant hefyd wedi cael ei gadarnhau gan BAHW i ddatblygu prosiect i hyrwyddo Llythrennedd Corfforol yn y Blynyddoedd Cynnar, mae hyn yn cynnwys Swyddogion Cyn-Ysgol Iach yn hyfforddi fel 'Hyfforddi'r Hyfforddwyr' gydag ymgynghorwyr Llythrennedd Corfforol GwE, a darparu sesiynau</p>
--	--	---

		<ul style="list-style-type: none"> • Hyrwyddo cyrsiau gofal plant Lefel 2 a Lefel 3 ymysg yr holl ddarparwyr gofal plant 	<p>ymwybyddiaeth Llythrennedd Corfforol i ddarparwyr y blynyddoedd cynnar.</p> <p>Cafodd y Cynllun Lleoliadau Cyn-Ysgol Iach Cynaliadwy ei ohirio ym Mawrth yn sgil Covid-19, a chafodd y staff eu hadleoli i gefnogi TTP rhwng Mai a Medi. Dechreuodd y cam ailddechrau'r Cynllun ym Mehefin. Mae'r cam hwn yn golygu bod gennym 3 maes allweddol a amlinellir gan lechyd Cyhoeddus Cymru i weithio arnynt gyda lleoliadau Cyn-Ysgol, os ydynt angen ein cymorth.</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Atal a Rheoli Heintiau 2. Gweithgarwch Corfforol 3. Iechyd a Lles Meddyliol ac Emosiynol <p>Ffurfiwyd gweithgorau ac is-grwpiau lechyd Cyhoeddus Cymru, Cynllun Lleoliadau Cyn-Ysgol Iach Cynaliadwy / Rhwydwaith o Gynlluniau Ysgol Iach Cymru, ar feysydd blaenoriaeth. Mae swyddogion Cyn-Ysgol Iach o Sir y Fflint yn cynrychioli'r rhanbarth ar y grwpiau hyn.</p> <p><u>Mudiad Meithrin:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae Mudiad Meithrin yn darparu hyfforddiant rheolaidd ar gyfer holl gylchoedd meithrin. Mae hyfforddiant wedi parhau ar-lein yn ystod y pandemig. • Trwy'r grant gofal plant, maent wedi comisiynu hyfforddiant pwrpasol ar gyfer y cylchoedd yn Sir y Fflint ar gynllunio busnes, marchnata a brandio. • Mae sesiynau rhwydweithio rheolaidd wedi digwydd dros zoom. • Mae hyfforddiant wedi cael ei gynnig ar:
--	--	---	--

			<p>Ymwybyddiaeth iechyd meddwl, delio gydag oedolion diamddiffyn, y cwricwlwm newydd, defnyddio gofod tu allan, gweithdai AD, gweithdai ariannol, diogelu</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae cymhwyster gofal plant lefel 3 a 5 hefyd ar gael <p><u>PACEY Cymru</u> Parhau i hyrwyddo cymwysterau mewn Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygu Plant (CCPLD) ac annog ymarferwyr i symud ymlaen gyda dysgu a datblygu. Mae PACEY Cymru yn darparu dau uned hyfforddi cyn cofrestru o'r CCPLD lefel 3; Uned 326 Cyflwyniad i ofal plant yn y cartref ac uned 327 Paratoi ar gyfer ymarfer gwarchodwr plant. Mae PACEY Cymru hefyd yn gweithio mewn partneriaeth agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru a phartneriaid eraill mewn perthynas â chymwysterau gofal plant yng Nghymru, gan gynnwys cynrychiolaeth yn QSAG.</p> <p><u>Blynyddoedd Cynnar Cymru</u> Mae cynrychiolwyr Blynyddoedd Cynnar Cymru yn gweithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, Cymwysterau Cymru, CBAC/City and Guilds, fel rhan o ymgyrch Gofalwn a QSAC.</p> <p><u>Cronfa Datblygiad Plant</u> Roedd nifer o ddarparwyr wedi gallu mynychu hyfforddiant wedi'i ariannu trwy'r bartneriaeth Llwybr y Blynyddoedd Cynnar, gan gynnwys: GroBrain; Makaton; Elklan a Millpond, yn ogystal â chyflwyniad</p>
--	--	--	---

			i iaith, lleferydd a chyfathrebu a'r llwybrau yn Sir y Fflint.
Parhau i gefnogi a datblygu gwaith partneriaeth	Gwaith partneriaeth yn cynnwys ymgynghori â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint, Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru, Sefydliadau Partner/yambarél, Fforwm Addysg Cyfrwng Cymraeg, Canolfan Byd Gwaith, Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir y Fflint, AWARE, Lleoliadau Cyn-Ysgol Iach, Awdurdodau Lleol Cyfagos, Cyflogwyr Lleol a budd-ddeiliaid eraill	Cydweithio rhwng darparwyr a sefydliadau gofal plant	<p>Roedd y Canolfan Deuluoedd Gwledig Gogledd Sir y Fflint yn gallu ailagor yn rhannol ym Medi 2020. Yna roedd Clybiau Ar-ôl Ysgol yna'n gallu ailagor o 14 Medi. Roedd y Gweinyddwr Prosiect yn y ganolfan yn gweithio'n agos gyda'r pwyllgor 'Pawb am Ofal Plant' newydd a'r ysgol i sicrhau y bydd cofrestriad AGC yn ei le ar gyfer tymor yr haf 2021.</p> <p>Mae Gwasanaeth Gofal Plant a Crèche Sir y Fflint wedi ymrwmo i Gytundeb Lefel Gwasanaeth lle mae eu staff yn gallu cefnogi'r tîm Datblygu Gofal Plant i ddarparu gwasanaeth casglu a darparu ar gyfer dyfeisiau llif unffordd yn dechrau o Chwefror 2021 ac yn parhau i'r flwyddyn ariannol newydd.</p> <p><u>Grŵp Facebook Chwilio Gofal Plant</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r tîm FISF wedi sefydlu grŵp 'chwilio am ofal plant' ar Facebook i helpu paru rhieni gyda darparwyr gofal plant. Rydym yn annog lleoliadau a rhieni i bostio yma os ydynt angen, neu os oes ganddynt lefydd gofal plant ar gael. • Bob wythnos, mae'r tîm FISF yn anfon negeseuon e-bost rheolaidd at gysylltiadau mewn adrannau perthnasol y cyngor, megis Addysg, Chwarae, Hamdden ac ati, i ofyn a oes ganddynt unrhyw ddiweddariadau neu newyddion maent angen i ni eu hyrwyddo ar eu rhan ar draws ein llwyfannau. • Mae gan dudalennau cyfryngau cymdeithasol FISF bron i 2,500 o ddilynwyr, gydag oddeutu

			<p>400 o negeseuon yn cael eu derbyn bob chwarter gan ddefnyddwyr sydd eisiau mwy o wybodaeth ar y testunau a gyhoeddir.</p> <p>Mae nifer o negeseuon poblogaidd ers lansio ein tudalen Facebook yng Ngorffennaf 2019.</p> <p><u>PACEY Cymru</u></p> <p>Roedd staff yn cefnogi grŵp o warchodwyr plant ar draws Cymru (gan gynnwys Sir y Fflint) i gynhyrchu llyfr gyda Petra publishing. Nod y prosiect, a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, oedd datblygu llyfr stori a fyddai'n dangos ansawdd, gofal plant cofrestredig a hyrwyddo rôl gwarchodwyr plant o fewn y sector. Cynhaliwyd y lansiad llyfr ym Medi 2021, ac yn dilyn hyn fe gyhoeddodd PACEY Cymru Chwilfa Puw y Môr-Leidr, sy'n cynnwys syniadau ar weithgareddau yn gysylltiedig â'r stori.</p>
<p>Y prif fater ar gyfer lleoliadau eleni oedd effaith Covid-19 a'r cyfyngiadau cysylltiedig sydd wedi lleihau eu gallu i ddarparu gofal plant. Mae'r effaith yn debygol o fod yn ariannol a bydd cynnal y sector yn flaenoriaeth yn y dyfodol agos. Mae hyn wedi cael ei nodi mewn perthynas â defnyddio'r grantiau cynaliadwyedd dros y cyfnod adrodd nesaf i 2022.</p>			

Geirfa

- AWARE - Cynrychiolwyr EYDCP Cymru Gyfan
- BAWSO - Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth ar gyfer pobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru
- CO - Cynnig Gofal Plant
- CDT - Tîm Datblygu Gofal Plant (Cyngor Sir y Fflint)
- CIO - Sefydliad Corfforedig Elusennol

AGC	-	Arolygiaeth Gofal Cymru
CPCKC	-	Clybiau Plant Cymru Kids Club
DPP	-	Datblygiad Proffesiynol Parhaus
CSA	-	Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant
CWLWM	-	Gofal Plant Cymru yn Dysgu a Gweithio'n Gytûn
CYPOP5	-	Plant a Phobl Ifanc Dewis 5
DASU	-	Uned Ddiogelwch Cam-Drin Domestig (Sir y Fflint)
EDI	-	Erfyn Diagnostig Iaith
EYALNLO	-	Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol Y Blynyddoedd Cynnar
CSFf	-	Cyngor Sir y Fflint
FEYDCP	-	Partneriaeth Datblygiad Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Sir y Fflint
FISF	-	Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir y Fflint
IHC/PCP	-	Cyflwyno Gofal Plant yn y Cartref / Paratoi Ymarfer Gofal Plant (CYPOP 5 gynt)
NDNA	-	Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd
OOSC	-	Gofal Plant y Tu Allan i'r Ysgol
OSC	-	Clwb y Tu Allan i'r Ysgol
PaCE	-	Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth
PACEY Cymru	-	Cymdeithas Broffesiynol ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar
SASS	-	Datganiad Hunan Asesu Gwasanaeth
AAA	-	Anghenion Addysgol Arbennig
PPA Cymru	-	Cymdeithas Darparwyr Lleoliadau Cyn-Ysgol Cymru (Blynyddoedd Cynnar Cymru)

Am wybodaeth bellach cysylltwch â

Byra Foulkes - Rheolwr Cymorth y Blynyddoedd Cynnar

byra.foulkes@flintshire.gov.uk

01352 703930/ 07795 122267

Nerys Affleck - Swyddog Datblygu Gofal Plant

nerys.affleck@flintshire.gov.uk

01352 703504/ 07385 396073